Presentation to the
Local Government and Housing Committee
National Assembly for Wales

Cyflwyniad I'r
Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai
Cynulliad Cenedlaethol Cymru

NHBC

## Cyflwyno NHBC

**Beth yw swyddogaeth NHBC?**
Y prif reswm dros fodolaeth NHBC (Cyngor Cenedlaethol Adeiladu Tai) yw cynorthwyo'r diwydiant adeiladu cartrefi a sectorau sy'n gysylltiedig â thai yn y DU i wella ansawdd cartrefi newydd. Mae gennym gronfeydd yswiriant o £900 miliwn ac 850 o aelodau staff sy'n gweithio ledled y DU.

**NHBC yng Nghymru**
Mae gan NHBC 635 o adeiladwyr cofrestredig yng Nghymru ac yn 2001 fe gofrestrwyd 6,361 cartref newydd gyda NHBC. Hefyd, fe gynhaliodd ein staff 42,000 o arolygon ar dros 1000 o safleoedd yng Nghymru yn 2001. Yn y deng mlynedd diwethaf, fe gafodd 76,600 o gartrefi eu hyswirio gan NHBC, sef 81.5% o'r holl gartrefi newydd a ddechreuwyd yng Nghymru.

**Sut mae NHBC yn codi safonau?**
- Cofrestru adeiladwyr sy'n gorfod cydymffurfio â Rheolau a Safonau NHBC
- Gosod safonau adeiladu a chynnal arolygon ar gamau allweddol
- Darparu gwasanaethau gwarant ac yswiriant ar gartrefi newydd i fodloni anghenion prynwyr cartrefi
- Gweithio o fewn y diwydiant cartrefi newydd i hwyluso arloesi, ymchwil ac arferion gorau
- Adborth parhaus drwy gydol y broses i annog arferion gorau
- Hyfforddi rheolwyr safleoedd adeiladu tai

**Mae ein model busnes yn creu 'cylch rhinweddol' sy'n ysgogi gwelliannau yn safonau'r diwydiant.**




**Pwy yw grwpiau cwsmeriaid NHBC?**
Mae'r NHBC yn gweithio gyda phawb fydd ar eu hennill o gael codi safonau cartrefi newydd. Ein dau brif grŵp o gwsmeriaid sydd gennym yw:
- adeiladwyr tai, cymdeithasau tai a phobl sy'n adeiladu eu tai eu hunain, sef pobl y byddwn yn helpu eu rheoleiddio ac sy'n prynu ein gwasanaethau
- prynwyr cartrefi newydd – byddwn yn darparu cynlluniau yswiriant a gwarchod defnyddwyr

**Er 1967 mae NHBC wedi:**

- arolygu a darparu gwarant ar dros 5 miliwn o gartrefi newydd h.y. tua 30% o stoc dai bresennol y DU yn y sector preifat
- ysbrydoli gwledydd yn Ewrop, y Dwyrain Pell ac Affrica i sefydlu systemau gwarant ar gartrefi ar sail model NHBC


**A yw NHBC yn annibynnol?**

Mae NHBC yn gwmni nad yw'n dosbarthu elw, sy'n annibynnol ar y Llywodraeth a'r diwydiant adeiladu tai. Mae Cyngor llywodraethol NHBC yn cynnwys cynrychiolwyr o Gymdeithas y Gyfraith, Y Gymdeithas Llywodraeth Leol, sefydliadau defnyddwyr, penseiri a thirfesurwyr. Mae llai na chwarter ein Cyngor yn adeiladwyr tai ac ar hyn o bryd ein Cadeirydd yw Cadeirydd Fforwm Tai y Llywodraeth.

**A yw NHBC yn gweithio gyda'r Llywodraeth?**

Bydd NHBC yn cyfrannu at amryw o bartneriaethau rhwng y Llywodraeth a diwydiant, megis y Fforwm Tai, y Pwyllgor Ymgynghorol ar Reoliadau Adeiladu (BRAC), y Grŵp Ymgynghorol ar Safonau Perfformiad mewn Rheoli Adeiladu (BCPSAG), a'r Tasglu Trefol. Mae NHBC yn noddi mentrau fel Youthbuild a Gwobrau Cynllunio Tai. Trwy ein harbenigedd ym maes ansawdd tir ac effeithlonedd egni, rydym yn gwneud cyfraniad pwysig at yr agenda adfywio.

Cafodd ein gwelliannau i gryfhau ein hannibyniaeth ac ehangu ein cynllun gwarantu eu cydnabod ym mhapur Gwyrdd y Llywodraeth ar Dai ym mis Ebrill 2000.



## Gwasanaethau NHBC

**Gwasanaethau Gwarant ac Yswiriant**

- Ar hyn o bryd mae tua 1.7 miliwn o berchnogion tai yn cael eu gwarchod dan ein Cynllun Yswiriant deng mlynedd, Buildmark, gan:
- Cyn cwblhau: gwarchod y prynwr rhag yr adeiladwr yn mynd yn fethdalwr cyn i'r eiddo gael ei gwblhau
- Y ddwy flynedd gyntaf: unioni diffygion yn yr eiddo sy'n mynd yn groes i safonau NHBC. Mae'r adeiladwr yn gyfrifol am ymateb yn ystod y cyfnod hwn. Mewn achosion lle ceir gwrthdaro, bydd NHBC hefyd yn darparu Gwasanaeth Penderfynu am ddim sy'n llwyddo i ddatrys y rhan fwyaf o anghydfodau. Gan amlaf byddwn yn penderfynu o blaid perchennog y tŷ.
- Blwyddyn tri i ddeg: NHBC sy'n darparu'r yswiriant mwyaf cynhwysfawr yn y byd, gan gynnwys cost symud neu rywle arall i fyw os bydd angen.
- Yswiriant Rheoli Adeiladu dim bai lle bydd NHBC yn darparu'r gwasanaeth Rheoli Adeiladu sy'n gwarchod mwy ar ddefnyddwyr na phan fydd Awdurdodau Lleol yn ymgymryd â Rheoli Adeiladu.

**Arolygon gan NHBC**

Mae NHBC yn mynd i gryn ymdrech wrth bennu safonau ac arolygu adeg adeiladu cartrefi newydd. Y llynedd, buom yn arolygu dros 150,000 o gartrefi newydd yn y DU. Yng Nghymru buom yn cynnal tua 42,000 o arolygon ar 1018 safle.

Daeth NHBC yn 'Arolygwr Cymeradwy' am y tro cyntaf yn 1985, i weithredu Rheolau Adeiladu ar aneddleoedd ac adeiladau ategol hyd at, ac yn cynnwys, pedwar llawr. Cafodd y drwydded ei hehangu'n gynyddol ers hynny a bellach byddwn yn gofalu am Reolau Adeiladu ar bob dosbarth o adeiladau. Mae'r gwasanaeth a gynigir yn cynnwys rhoi cyngor anffurfiol, bwrw golwg ffurfiol dros gynlluniau, cymeradwyo mathau o adeiladau a gwasanaeth arolygu ar y safle. Aelod o staff NHBC gyda chymwysterau addas fydd yn arolygu, a byddant yn sicrhau fod y gwaith yn cadw at y Rheoliadau Adeiladu yn ogystal â Safonau NHBC.

Mae gan NHBC dystiolaeth glir bod ansawdd ei waith Rheoli Adeiladu yn sicrhau bod llai o hawliadau a bod y cofnod o hawliadau yn cymharu'n ffafriol â chofnod cyfatebol yr Awdurdodau Lleol.

Byddwn yn arolygu a gwella safonau technegol yn gyson er mwyn helpu i leihau diffygion a gwella cyflwr stoc dai y DU yn y tymor hir. Yn ein gwaith fel Arolygwr Cymeradwy byddwn yn gweithio'n agos â'r Llywodraeth a budd-ddeiliaid eraill i ddarparu cyfarwyddyd sy'n gysylltiedig â Dogfennau Cymeradwy. Dyma enghreifftiau:

- ein gwaith ar Ran M yn gysylltiedig â mynediad mewn cartrefi newydd
- Dogfen Gymeradwy ar adeiladu isloriau a gymeradwywyd gan yr Ysgrifennydd Gwladol
- Safonau NHBC ar gyfer adfer tir wedi'i lygru a'n polisi gwarchod i brynwyr cartrefi. Hefyd ein nawdd i'r DTLR newydd, Chwefror 2002, dogfen arweiniad "Paratoi ar gyfer Llifogydd" a chynllun graddio amgylcheddol BRE ar gyfer cartrefi (EcoHomes).

Mae'r rhain oll yn dangos ymrwymiad NHBC i roi sylw i faterion allweddol sy'n wynebu defnyddwyr yn hytrach na chadw at fuddiannau masnachol cul.

**Gwelliannau diweddar i godi safonau**

- Er 1998 mae NHBC wedi bod yn ailedrych yn sylfaenol ar ei waith gan ehangu amrywiaeth ac ansawdd y gwasanaethau a ddarparwn.
- Cafodd yswiriant Buildmark ei ehangu'n sylweddol a bellach mae'n gwarchod rhag cost adfer tir wedi'i lygru ac aml-wydro
- Pan fydd NHBC yn gofalu am y Rheoli Adeiladu, mae Buildmark bellach yn cynnwys agweddau ychwanegol, er enghraifft mynediad a chyfleusterau i bobl anabl
- Cafodd dogfennau Buildmark eu hailysgrifennu gan ddefnyddio iaith glir er mwyn ymdrin â beirniadaeth yn y gorffennol am amwysedd ac er mwyn osgoi camgyfleu'r yswiriant
- Cyflwyno Gwasanaeth Arolygu newydd ar Gamau Allweddol
- Mae NHBC wedi ad-drefnu a buddsoddi'n helaeth mewn rhaglen barhaus o dechnegol newydd a hyfforddi staff er mwyn gwella'r Gwasanaethau Hawlio ac Arolygu

Mae NHBC wedi cymryd camau sylweddol i gryfhau sefyllfa'r defnyddwyr trwy:

- Cryfhau cynrychiolaeth y budd-ddeiliaid ar lefel Bwrdd
- Sefydlu Pwyllgor Materion Defnyddwyr
- Datblygu ein Siarter Cwsmeriaid ein hunain
- Monitro gofal i gwsmeriaid a'r ffordd yr ymdrinnir â chwynion
- Archwilio perfformiad gofal am gwsmeriaid
- Cynnal gwaith ymchwil rheolaidd a systematig ar ddefnyddwyr
- Gwneud cynigion i wella gweithdrefnau cwsmeriaid

**Mae miliynau o berchnogion cartrefi yn dibynnu ar NHBC. Rydym yn deall bod gennym gyfrifoldeb i wella ein gwasanaethau drwy'r amser a defnyddio ein dylanwad i annog safonau uwch. Rydym yn croesawu'r cyfle gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru i roi ein barn ynghylch sut y gallwn gydweithio i godi safonau yn y diwydiant cartrefi newydd yng Nghymru.**

# Problemau Morter Meddal yng Nghymru

Mae NHBC wedi ceisio gweithio gydag adeiladwyr a Chynulliad Cenedlaethol Cymru i sicrhau ein bod yn ymdrin â materion yn ymwneud â Morter Meddal.

**Pam mae morter meddal yn fwy cyffredin yn Ne Cymru?**
Dyma rai rhesymau posibl pam fod mwy o broblemau gyda morter meddal yn Ne Cymru:

- Mwy o gymysgu ar y safle
- Diffyg dealltwriaeth gan y gweithwyr fod angen gwahanol gymysgedd/ cryfderau ar gyfer gwahanol ddeunyddiau – brics, blociau concrit ac yn y blaen.
- Amrywiaeth yn ansawdd y tywod a ddefnyddir ar safleoedd yn Ne Cymru

**Sut mae NHBC yn helpu adeiladwyr i ymdrin â phroblem morter meddal?**
Bu NHBC yn cynnal cyfarfodydd gydag adeiladwyr yng Nghymru, yn cynnal profion i fesur cryfder morter ac yn ceisio defnyddio ei arbenigedd technegol i helpu i ddatrys y mater hwn. Dyma'r rai o'r pethau a wnaethom:

- Mae ein cylchlythyr technegol *Standards Extra* – sy'n cael ei anfon at bob un o'r 18,000 a mwy o Adeiladwyr Tai Cofrestredig – wedi rhoi sylw amlwg i hyrwyddo arferion gorau
- Anfon Cylchlythyr Technegol at staff
- Cynnwys materion yn ymwneud â morter yn ein rownd cyfredol o seminarau cenedlaethol "Adeiladu ar gyfer Yfory"
- Gwaith ymchwil, gan gynnwys gwaith cynharach gydag Adran yr Amgylchedd, fel ag yr oedd bryd hynny, a'r Sefydliad Ymchwil Adeiladu (BRE) ar ymchwil i Gymysgeddau Morter Cyffredin, sydd eisoes wedi'i ymgorffori yn ein Safonau
- Bu NHBC yn hyrwyddo ac annog defnyddio cymysgeddau mewn bagiau, morter a gynhyrchwyd mewn ffatrïoedd, a dulliau arloesol newydd megis cymysgeddau seilo, sy'n cael eu cymysgu yn ôl y galw. Wrth ddefnyddio'r deunyddiau hyn, mae'n llai tebygol fod camgymeriadau'n codi ar y safle
- Rydym wedi paratoi fideo arferion gorau ar gyfer pobl sy'n rheoli safleoedd. Bydd hwn, yn rhannol, yn pwysleisio bod angen cael cymysgedd y morter yn gywir ar y safle
- Rydym wrthi hefyd yn hyrwyddo'r arfer o ddefnyddio cit profi morter ar safleoedd yn Ne Cymru. Er enghraifft, mae Persimmon Homes (Cymru) eisoes yn defnyddio'r cit
- Cyflogwyd arbenigwr annibynnol i gynghori ar broblemau morter ar safleoedd penodol yn Ne Cymru
- Bu staff NHBC yn cynnal ymarferiad samplu ar hap ar safleoedd yng Nghymru, gan ddefnyddio cyfarpar BREMORTEST

**Sut gallwn ni ymdrin â'r gagendor sgiliau?**
Mae'r rhan fwyaf o sylwebyddion yn cydnabod bod problem prinder gweithwyr medrus ar safleoedd. Dyna pam fod NHBC wedi lansio ei wasanaeth hyfforddi ei hun ar gyfer rheolwyr yn y diwydiant adeiladu tai bum mlynedd yn ôl.

Mae ein gwasanaeth yn ehangu'n gyflym gyda rhaglenni i reolwyr safleoedd cynorthwyol a rhaglenni i reolwyr safleoedd yn seiliedig ar NVQ/SVQ lefelau 3 a 4. Bydd y portffolio yn cael ei ehangu cyn bo hir gyda Rhaglen NVQ/SVQ lefel 5 i Reolwyr Cytundebau. Mae gennym drefniant partneriaeth hefyd gyda Phrifysgol Nottingham Trent i gynnig MSc mewn Datblygu Eiddo Preswyl.

Mae'r rhaglenni hyn yn cyd-fynd ag amryw o gyrsiau hyfforddi byr a phoblogaidd megis 'Atal Diffygion' a 'Gwasanaeth Rhagorol ar ôl Gwerthu', a chyrsiau amserol newydd ar Reoli Adeiladau Pren ac Ynysu. Cafodd ansawdd hyfforddiant NHBC ei gydnabod yn ddiweddar gan TOPIC fel 'Mabwysiadwr Arferion Gorau'. Mae'r uned yn darparu tua 40% o'r holl raglenni cymwysterau rheoli adeiladu ym maes addysg bellach yn y diwydiant.

**Barn NHBC**

Mae NHBC yn pennu safonau a helpu i reoleiddio diwydiant adeiladu cartrefi'r DU. Ni hefyd yw'r Arolygwr Cymeradwy mwyaf dros Reoli Adeiladu yn y sector preifat ar gyfer y diwydiant adeiladu tai yng Nghymru a Lloegr. O'r herwydd, rydym wedi cymryd ein cyfrifoldeb tuag at berchnogion tai a defnyddwyr yng Nghymru yn hollol o ddifrif.

Rydym wedi croesawu'r cyfle i weithio'n agos â swyddogion y Cynulliad Cenedlaethol i ymdrin â'r materion hyn. Byddwn yn parhau i ddefnyddio ein hadnoddau, ein harbenigedd a'n profiad i ymdrin â'r materion hyn a pharhau i ymgyrraedd at ein nod, sef codi safonau adeiladu tai yng Nghymru.

**DIWEDD**

**Os hoffech chi dderbyn rhagor o wybodaeth am NHBC neu unrhyw agwedd ar ein gwaith cysylltwch ag :**

**Andrew Howard**
**Pennaeth Cyfathrebu Corfforaethol a Chefnogaeth Weithredol**
**NHBC (Cyngor Cenedlaethol Adeiladu Tai),**
**Buildmark House, Chiltern Avenue, Amersham, Bucks HP6 5AP**
**Ffôn: 01494 735262**
**Ffacs: 01494 735365**
**E-bost: ahoward@nhbc.co.uk www.nhbc.co.uk**